# <u>Cyngor Cymuned Llanystumdwy</u>

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 8 Ionawr 2026 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Festri Pencaenewydd, a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).**

1. **<u>Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau.</u>**

**<u>Yn bresennol</u>** y Cynghorwyr Anwen Jones (Cadeirydd), Rhys Tudur, Dewi Thomas, Aled Evans, Aled Davies, Gareth Davies, Miriam Williams, Sian Angharad Parry, Euros Jones, Angharad Llwyd-Jones, Delyth Parry, Tegid Jones a'r Clerc.

**<u>Ymddiheuriadau</u>** – Cynghorydd Dylan Thomas, ac Angela Williams.

2. **<u>Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 4 Rhagfyr 2025.</u>**

3. **<u>Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Rhagfyr 2025.</u>**

4. **<u>Datgan buddiant personol</u>**

i) **<u>Cynghorydd Anwen Jones</u>**
Eitem 16 sef Menter y Plu oherwydd ei bod yn fam i'r Cadeirydd

ii) **<u>Cynghorydd Aled Evans</u>**
Eitem 16 sef Menter y Plu oherwydd ei fod yn aelod o bwyllgor y Fenter.

iii) **<u>Cynghorydd Euros Jones</u>**
Eitem 8 a, cais cynllunio Morawel, Llangybi oherwydd ei fod yn gartref iddo.

iv) **<u>Cynghorydd Tegid Jones</u>**
Eitem 16 sef Menter y Plu oherwydd ei fod yn Gyfarwyddwr y Fenter
Eitem 8 a, cais cynllunio Morawel, Llangybi oherwydd ei fod yn frawd i ymgeisydd y cais.

v) **<u>Cynghorydd Delyth Parry</u>**
Eitem 8 (ch), cais cynllunio Cae Newydd, Pencaenewydd oherwydd bod yr ymgeisydd yn aelod o'r teulu.

vi) **<u>Cynghorydd Dewi Thomas</u>**
Eitem 16 sef Menter y Plu oherwydd ei fod yn aelod o bwyllgor y Fenter.

5. **<u>Sedd wag yn Ward Llanystumdwy – y Clerc wedi gosod rhybudd ar yr hysbysfwrdd yn Llanystumdwy, ac ar y wefan hefo dyddiad cau 05.01.2026 a bod angen cysylltu hefo Cyngor Gwynedd.</u>**

6. **<u>Materion gan Cyngor Gwynedd</u>**

| Rhif y Ffordd | Lleoliad y Gwaith | Disgrifiad o'r gwaith mis Rhagfyr |
|---|---|---|
| A497 | Cylchfan Afonwen | Arwyddion Cyflymder (Teithio Llesol) |
| Di-ddosbarth | Ynys Creua, Llangybi | Atgyweirio ymyl ffordd |

7. **Terfyn Cyflymder Arfaethedig 40 mya, Ffordd Dosbarth 3, Afonwen - Chwilog**

Fel rhan o'r gwelliannau ffordd Teithio Llesol ar y llwybr uchod, mae cynnig o osod terfyn cyflymder o 40 milltir yr awr ar y lon uchod. Derbyniwyd cynllun lleoliad yn dynodi ei bwriad gan yr Adran Traffig. Byddant angen sylwadau ynglŷn â'r uchod erbyn 16.01.2026. Os na dderbynnir ymateb o fewn yr amser hwn, cymerir yn ganiataol nad oes unrhyw wrthwynebiad. **Derbyn.**

8. **Cais cynllunio sydd angen penderfyniad**

a) **Morawel, Llangybi, C25/0877/41/DT** - Darparu ffenestri gromen ar yr annedd bresennol. **Dim gwrthwynebiad.**

b) **Fferm Bron Eifion, Llanystumdwy - C25/0868/41/LL** - Codi adeilad amaethyddol dros storfa silwair/buarth fferm presennol. **Derbyn.**

c) **Fferm Chwilog Fawr, Chwilog- C25/0902/41/YA** - Adeiladu sied amaethyddol ar gyfer storio porthiant anifeiliaid. **Derbyn**

ch) **Cae Newydd, Pencaenewydd - C25/0929/41/LL** - Cais i greu storfa slyri newydd (cynllun diwygiedig i'r hyn ganiatawyd dan gais C21/0804/41/LL. **Derbyn**

d) **Tir ger Brynhyfryd / Cae Capel, Chwilog - C25/0710/41/LL** - Codi 25 o dai fforddiadwy). Fe nodwyd fod 5 dogfen newydd ar y cais yma, adroddiad gan traffig. **Penderfynwyd gwrthod eto gan ategu'r sylwadau a nodwyd blaenorol fis Tachwedd 2025.**

**Materion yn y gymuned**.

9. **Llanystumdwy**

a) **Clawdd Maen y Wern** – gofynwyd i'r Clerc holi pwy oedd yn gyfrifol am dorri'r gwrych sydd bob ochr i'r fynedfa o'r lon at y Bedd, oherwydd ei bod wedi tyfu.

b) **Bin halen melyn** – wedi cael ei osod yng Nghaerffynnon.

10. **Rhoslan/Ynys**

12 **Chwilog**

13. **Pencaenewydd/Sardis**

**Padiau diffibriliwr** – wedi archebu padiau ar gyfer Sardis mis Rhagfyr, ac wedi cael gwybod wedyn fod y dyddiad sydd ar padiau Llangybi hefyd yn dod i ben ddiwedd Ionawr, felly y Clerc wedi archebu rhai eraill hefyd i sylw Mr Ifor Davies. Y Clerc wedi archebu 2, ac wedi derbyn caniatad gan y Cadeirydd i dalu amdanynt o flaen y cyfarfod ar 06.01.2026 fel ei bod yn cyrraedd ar frys.

14. **Llangybi**.

a) **Cyflenwad trydan yn araf ac yn diffodd** – ymholiad fod argraff cyffredinol bod ardal LL53 6LZ i weld yn cael toriadau yn aml yn y cyflenwad trydan pan fo tywydd garw, a bod y

cyflenwad wedyn yn tueddu i fod yn araf yn dod yn ol ar ol mynd i ffwrdd. Clerc wedi anfon ebost at Scottish Power i holi os oes gwendid neu ddiffyg yn y ceblau trydan sy'n cyflenwi'r ardal (neu os oes er enghraifft coed yn agos at rhai o'r ceblau).

b) **Canllaw ar 'Bont Merched'** (ar y llwybr tu cefn i'r ysgol, am Garn Bentyrch) derbynwyd sylw fod ei gyflwr mor wael bellach, mae'n saffach ei dynnu oddi yno yn llwyr nai adael fel y mae. Mae wedi hollti yn ddau can adael pigau metel rhydlyd naill ben o'r hollt. Gorau oll os gellir ei gyfnewid - neu fel arall gwell ei dynnu oddi yno yn llwyr. Clerc eisioes wedi cysylltu hefo Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy.

15. **Materion Ariannol**

**Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.**
Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 31.12.2025. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.

16. **Menter y Plu** – wedi derbyn cais am gymorth ariannol tuag at gostau blynyddol y rhandiroedd, a fydd yn cael sylw mis Chwefror. Roeddent hefyd yn gofyn os oedd yn bosib rhoi cais blynyddol am nawdd blynyddol ar gyfer y rhandiroedd, oherwydd nad oeddent yn codi unrhyw ffi i'r rhanddeiliaid ac mae costau blynyddol megis yswiriant, cynnal a chadw, compost a thail ac ati yn dod o goffrau y Plu. **Y Clerc wedi gwneud ymholiad am hyn hefo Un Llais Cymru, ac awgrymwyd mai'r peth gorau oedd iddynt wneud cais yn flynyddol, a gwneud penderfyniad hefo gweddill y ceisiadau bob mis Chwefror.**

17. **Hysbysfwrdd Beirdd Mynwent Chwilog** – bydd angen holi am bris i osod yr hysbysfwrdd ar ol ei dderbyn.

18. **Hysbyseb ceisiadau am Gymorth Ariannol** – gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor, wedi cael ei roi ar y wefan, Y Ffynnon, ac ar yr hysbysfyrddau gyda dyddiad cau 15.01.2026.

19. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw** | Rheswm | Pris £ | TAW £ | Cyfanswm Taliad £ | Taliad BACS £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Criccieth Cleaning | Glanhau llochesi bws (3960) *Ar ol i'r Clerc dderbyn y bil gwreiddiol,gwnaeth gysylltu hefo Criccieth Cleaning i'w hysbysu fod 2 loches bws yn llai gennym oherwydd ei bod wedi cael ei symud o Afonwen dros dro, ac felly dylai'r bil fod yn llai. Felly derbyniwyd bil is a cytunwyd i dalu hwnnw, sef £209.45.* | ***174.54*** | ***34.91*** | ***209.45*** | ***209.45*** |
| *Defibstore Ltd* | *Derbyniwyd un bil yn wreiddiol am un set o padiau i Diffib Sardis (54829) Zoll CPR-D Padz* | **238.00 a 10.00 cludiant** | **49.60** | **297.60** | **297.60** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | *(wedyn derbynwyd cais am set o padiau eraill hefyd ar gyfer Llangybi.Clerc wedi cael caniatad gan y Cadeirydd archebu padiau eraill ar gyfer Llangybi hefyd,ac i dalu hwn cyn y cyfarfod ar 06.01.2026 rhag ofn y bydd ei angen nhw ar frys).* | | | | |

20. Cyflog mis Rhagfyr 2025 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm £ | Cyfanswm Taliad net £ | Taliad BACS:- £ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Rhagfyr 2025<br>35 awr y mis x £18.85 = **£659.75** a | £659.75<br>Llai treth-<br>£132.00 =<br>**£527.75** | **527.75** | **527.75** |
| Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Rhagfyr 2025<br>£660.00 x 20% = £132.00 | **£132.00** | **132.00** | **132.00** |
| Costau swyddfa Clerc Rhagfyr 2025 | **26.00** | **26.00** | **26.00** |

21. **Materion hwyr**

Bydd angen penderfynu os mai ar y nos Iau **05.02.2026** fydd y cyfarfod nesaf yn Festri Pencaenewydd a drwy Zoom.

22. **Offer sain** – trafodwyd y mater fod offer sain a gweledol sydd yn Festri Pencaenewydd o fantais wrth gynnal cyfarfodydd. Gofynwyd i'r Clerc ofyn wrth Neuadd Chwilog a Llanystumdwy tybed a fyddent yn ystyried cael offer tebyg, drwy uwchraddio'r dechnoleg oherwydd fod trafferthion sain gan y rhai sydd yn ymuno yn rhithiol.

23. **Tyddyn Crythor i Hendy, Ynys** – angen glanhau gwterydd oherwydd fod dwr yn gronni yno.

24. **Baw ci yn Chwilog a Phencaenewydd** eto.